Gari Lewis
Ymgynghorydd Annibynnol
Gwerthuso ac Ymchwil
Independent Consultant
Evaluation and Research

Ad-drefnu ysgol cynradd y sir er lles addysg holl blant Gwynedd

Ymgynghoriad

Adroddiad drafft ar ganfyddiadau'r ymatebion

Mai 2008

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	**3**
Yr ymgynghoriad a'r ddogfen	**3**
Yr achos dros newid	**4**
Y Brif Strategaeth	**7**
Opsiynau eraill/Cynllun Arfaethedig Gwynedd	**11**
Casgliadau	**12**

1. Cyflwyniad

Bwriad yr adroddiad drafft hwn yw amlinellu'r prif ganfyddiadau a gododd o ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar gynllun drafft *Ad-Drefnu Ysgolion Cynradd y Sir er Lles Addysg Holl Blant Gwynedd*. Yn y lle cyntaf, lluniwyd yr adroddiad drafft hwn er mwyn hysbysu'r swyddogion o'r prif dueddiadau ac er mwyn pennu a yw'r strwythur yr adroddiad yn addas.

At ei gilydd, cafwyd ymatebion llawn i'r ymgynghoriad. Tuedda tua dros hanner yr ymatebwyr i ymdrin â'r ddogfen ymgynghorol yn drylwyr – cynllun drafft *Ad-Drefnu Ysgolion Cynradd y Sir er Lles Addysg Holl Blant Gwynedd* - drwy geisio mynd i'r afael â'r pwyntiau a amlinellwyd yn y cynllun drafft. O ran y gweddill, cyflwynwyd rhai pwyntiau pwrpasol a oedd yn tueddu i ddeillio o sefyllfa benodol ysgolion unigol neu brofiad unigolion. Y prif negeseuon o'r ymgynghoriad:

- Bod gwrthwynebiad mawr o safbwynt rhieni oherwydd profiadau ysgolion unigol;
- Nad yw sail dadl y Cyngor yn gadarn o ran y data a ddefnyddiwyd a'r sail cyllidol;
- Anwybyddwyd rhesymau addysgol;
- Nad oes modd creu fframwaith sir gyfan – mae angen mynd i'r afael â phatrymau lleol;
- Bod cynigion am ysgolion ffederal yn hollol annerbyniol;
- Bod angen creu strategaeth lai uchelgeisiol drwy weithio mewn rhai ardaloedd penodol ac adeiladu ar ddyheadau a chynigion lleol;
- Bu i addysg leol ddioddef oherwydd diffyg buddsoddiad mewn cymunedau.

2. Yr ymgynghoriad a'r ddogfen

Derbyniwyd rhyw 450 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Lleiafrif oedd y rhai a feddyliai fod y broses ymgynghori, gan gynnwys y cyfarfodydd a gynhaliwyd, yn ffordd deg o gasglu barn. At ei gilydd, roedd y mwyafrif yn amheus o'r holl broses ac yn dadlau bod y ddogfen ymgynghorol ei hun yn ddiffygiol.

Y farn gyffredinol oedd bod:

- camliwio wedi bod,
- nodiadau cyfarfodydd wedi cyflwyno'r pwyslais anghywir.
- sôn annigonol am rai opsiynau
- y dadansoddiad yn annheg oherwydd bod y data yn anghywir;
- rhesymau cyllidol yn hytrach na rhai addysgol yn gyrru'r broses.

Nododd un ymatebwr (rhiant)

> '*nid ymgynghori oedd hwn ond cyflwyno set o ddadleuon diffygiol a disgwyl i ni eu derbyn'*

Nododd un arall (rhiant):

> *Questionnaires that have been sent to parents are poor examples of the methodology, with leading and weighted questions.*
> *Lack of infomation for people to make informed choice is also a big issue, facts and figures seem to be released when it suits, and even then not then whole picture.*

Ac unigolyn arall:

> *The consultation process is being steered to 'justify' a decision which has already been taken by councillors of Gwynedd council.*

Serch hynny, nododd sawl corff llywodraethol fod y dadansoddiad yn iawn ac yn adlewyrchu eu sefyllfa hwy

> *Pawb yn cytuno bod y dadansoddiad yn deg*

3. Yr achos dros newid

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi a oeddynt yn cytuno bod y sefyllfa bresennol yn anghynaladwy. Gwrthododd rhai (tua pump) ateb y cwestiwn hwn oherwydd eu bod yn amau'r cwestiwn ac yn teimlo ei fod yn gamarweiniol. Serch hynny, dyma gyfrif o'r carfannau gwahanol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn:

Carfan	Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod/dim barn
Rhieni	**7**	**7**	**45**	**97**	
Llywodraethwyr/corff llywodraethol	**7**	**12**	**11**	**9**	**1**
Aelod o staff ysgol		**4**	**10**	**12**	
Pennaeth	**3**	**1**	**4**	**1**	
Undeb athrawon		**1**			
Cyngor cymuned/tref	**1**	**8**	**5**	**7**	
Grwpiau cymunedol		**3**	**8**	**9**	

Unigolion	**3**	**14**	**22**	**23**	

Nid yw'r ffigur ar gyfer unigolion yn cynnwys y 39 ateb tebyg a ddaeth o *'aelodau o'r gymuned'* ar gyfer Ysgol Baladeulyn ar ffurf debyg. Yn achos ardal Ysgol y Clogau, caed nifer o ymatebion tebyg ond defnyddiasant yr holiadur swyddogol ac felly cyfrifwyd y rhain yn y cyfansymiau uchod. O ran Abersoch cafwyd nifer o ymatebion gan fudiadau, sefydliadau a busnesau lleol sydd wedi'u cynnwys yn y grwpiau cymunedol. Tuedda ymatebwyr Llanystumdwy, Borth y Gest a'r ardal gyfagos ddefnyddio'r un atebion parod a ddarparwyd ar daflen a ludiwyd yn yr holiadur. Cyfrannodd nifer o fudiadau lleol i'r ymgynghoriad yn ardal Rhostryfan. Defnyddiwyd ffurflen ymateb fer barod gan rai rhieni Ysgol Llandwrog.

O'r tabl hwn, gellir dirnad nad yw'r rhesymeg dros ddweud bod y sefyllfa gyfredol yn gynaliadwy i'r dyfodol wedi' i dderbyn o gwbl gan y rhieni a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Mae'r mwyafrif llethol (91%) yn anghytuno neu anghytuno'n gryf bod y sefyllfa'n anghynaladwy. Daw'r nifer helaeth o'r rhain o ysgolion a enwyd fel rhai a ystyrir ar gyfer eu had-drefnu, a bydd angen ystyried sut mae trafod ymhellach y camau y bwriedir eu cymryd gyda'r garfan hon.

Y garfan arall a wrthwyneba'r cynigon a'r rhesymeg drostynt ac sy'n dal bod y sefyllfa'n gynaliadwy yw aelodau o staff ysgol, lle mae'r rhan fwyaf heb dderbyn y dadleuon dros gynaladwyedd y sefyllfa. Mae barn penaethiaid yn fwy rhanedig a cheir tua eu hanner yn cytuno neu gytuno'n gryf nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy. Yr un yw'r sefyllfa gyda cyrff llywodraethol neu lywodraethwyr unigol. Hefyd, mae ychydig dan hanner y cynghorau tref/cymuned yn cytuno gyda'r rhesymeg dros newid.

Ymhlith y rhai a anghytunai nad yw'r sefyllfa yn gynaliadwy y prif resymau a roddwyd oedd:

- Bod y sefyllfa ysgol leol benodol yn un addas ac wedi derbyn cymeradwyaeth gan Estyn;
- Ffigurau'r sir yn anghywir neu ddiffygiol neu anwybyddu tueddiadau diweddar yn enwedig wrth ystyried cyfradd genedigaethau. Mae ffigyrau a gyhoeddwyd gan y bwrdd iechyd yn nodi fod cynnydd o 5% yng ngenedigaethau dros 2005 - 06. Poenai rhai fod y ddogfen yn defnyddio ffigurau 2005 a bod ffigurau 2008 o bosibl yn wahanol;

- Fod ffigyrau cost y pen wedi cael eu defnyddio yn effeithiol i gefnogi'r ddadl ond bod y rhain yn adlewyrchu sefyllfa begynol ac nid ydynt yn ddarlun o wir gostau a allai fod yn llai o dipyn mewn rhai achosion;
- Bod nifer o ysgolion dros eu capasiti ond eto roedd sôn am eu cau;
- Amheuon am brinder penaethiaid, eu rôl newydd a recriwtio'n gyffredinol;
- Bod defnydd cymunedol ysgolion Cefn Gwlad yn datblygu gyda mudiadau fel Ffermwyr Ieuanc, yr Urdd, Clybiau Crefyddol yn cyfarfod ynddynt.
- Dosbarthiadau llai yn rhywbeth i'w groesawu;
- Angen rhoi ystyriaeth lawnach i adfywio cymunedau a gwerth darpariaeth addysgol yng ngoleuni ffordd newydd o feddwl;
- Bydd costau cludiant gymaint â chadw ysgol ar agor.

Nododd ychydig fod y datblygiadau yng Ngwynedd yn gwbl groes i'r polisi a hybai llywodraethau Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gwelwyd bod tuedd yn y gwledydd hynny i geisio atgyfnerthu cefn gwlad a chryfhau darpariaeth wledig yn lle ei gwanhau. Roedd y rhain hefyd yn tueddu i bwyso ar ymchwil a gafodd sylw gan NASS am werth buddsoddiad addysgol mewn darpariaeth i ychydig o ddisgyblion. Dadleuai'r rhain fod astudiaethau wedi profi gwerth ysgolion bach er bod yr ymchwil, mewn gwirionedd, yn tarddu o archwilio effeithiolrwydd datblygiadau addysgol eraill.

Serch hynny, ymhlith y rhain a oedd yn gwrthwynebu materion sylfaenol yr achos dros newid, caed cytundeb cyffredinol bod:

- y setliad wedi bod yn wael i'r cyngor;
- adeiladau rhai ysgolion yn wael – er bod nifer yn dadlau nad yw cyflwr adeilad yn effeithio dim ar addysg plant.

Roedd lleiafrif o blaid rhesymeg y ddogfen – yn bennaf cynghorau cymuned a rhai cyrff llywodraethol ac ambell bennaeth. Yn achos yr ymatebion hyn nodwyd sylwadau fel y rhain:

> *Cytunir yn gyffredinol bod y naw rheswm a nodir yn sefydlu achos da dros newid, Ile bo hynny'n gyson ag amcanion cyffredinol y sir a dyheadau lleol. Roedd y Corff Llywodraethu yn croesawu'r ffaith fod y Cyngor Sir yn gosod cynllun gweithredu pendant gerbron yn hytrach nag eistedd ar y broblem yn disgwyl iddi ddiflannu. Nodwyd serch hynny fod bron i hanner ysgolion cynradd Gwynedd (48 allan o 106 hyd yma) wedi mynegi eu gwrthwynebiad i'r cynllun. Nodwyd hefyd fod y Cyngor wedi dangos rhywfaint o hyblygrwydd wrth ymateb i'r pryderon a fynegwyd a hyderir y bydd hynny'n parhau dros y cyfnod ymgynghori.(Corff Llywodraethol)*

Nid yw cytuno bod achos dros newid yn golygu ein bod yn cytuno â phob un o'r pwyntiau uchod. Yn ein profiad ni, ym marn sawl adroddiad arolygwyr, y prif reswm dros yr angen am newid yn Ysgol .. yw cyflwr difrifol y tri dosbarth hynaf.

Roedd un fam o blaid y ddogfen oherwydd bod

Education is better in a bigger school

Nododd un cynghorydd tref a feddyliai nad oedd y sefyllfa bresennol yn gynaliadwy fod nod ac amcanion y cynllun:

Yn egwyddorol iach. Y cwestiwn yw sut mae'r cyngor wrth gau rhai ysgolion mewn pentref gwledig yn sicrhau datblygiad cymunedol a chymdeithasol yn yr ardaloedd hynny.

4. Y Brif Strategaeth

Yn y rhan hon o'r ymgynghoriad, gofynnwyd i ymatebwyr roi eu barn ar gynigion penodol megis ysgolion ffederal ac ysgolion ardal.

4.1 Ysgolion Ffederal

Caed gwrthwynebiad cryf a sylweddol i ysgolion ffederal gan y mwyafrif llethol o ymatebwyr.

Y prif resymau a nodwyd am wrthwynebu'r syniad o sefydlu ysgolion ffederal oedd:

- Bod dim tystiolaeth y byddai'r model hwn yn gweithio yng Ngwynedd a bod dim treialu wedi digwydd gyda modelau posibl;
- Byddai'r ysgolion hyn heb hunaniaeth gymunedol ac yn ei chael hi'n anodd i greu hunaniaeth bendant;
- Nad oedd dim sicrwydd y byddai'r drefn hon yn gwella addysg;
- Nid oedd y sail ariannu ar gyfer y model hwn wedi ei bennu – yr oedd yn bosibl y byddai hon yn ffordd fwy drud o gyllido addysg wedi ystyried costau teithio'r pennaeth ac athrawon;
- Byddai penaethiaid yn troi'n rheolwyr safle yn hytrach nag addysgwyr ac yn colli adnabyddiaeth o ddisgyblion;
- Nid oedd creu na datblygu arbenigedd staff yn mynd i fod yn hawdd;
- Byddai'r broses o greu ysgolion ffederal yn rhy anhydrin wrth geisio sefydlu'r patrwm gweithredu hwn drwy'r sir;

- Bod y cynigion yn gorfodi trefn unffurf yn hytrach na cheisio hyrwyddo datblygiadau lleol organig, effeithlon;
- Dim presenoldeb pennaeth trwy'r adeg.
- Plant yn teithio rhwng safleoedd - costau teithio uchel a sefyllfa annifyr i blant.
- Byddai arbenigedd ambell ysgol a oedd yn cynnwys uned anghenion addysgol arbennig yn cael ei golli;
- O bosibl, ni fyddai rhai ysgolion yn dymuno cyd weithio gyda'i gilydd.
- Mewn rhai sefyllfaoedd byddai plant o'r un teulu yn cael eu gwahanu.
- Byddai grym lleol yn cael ei golli oherwydd un corff llywodraethol
- Caed ansicrwydd cyllid ar gyfer y dyfodol;
- Cysylltiadau rhwng pennaeth a'r ardal yn wannach
- Cyswllt rhwng ysgol a chymuned yn wannach
- Cyn sefydlu ysgol ffederal, byddai rhaid cau pob ysgol unigol o fewn y bartneriaeth
- Ni fyddai'r system yn gweithio heb gefnogaeth rhieni ac nid yw honno ar gael o bell ffordd ar hyn o bryd.

Nododd ymatebwr arall (unigolyn):

> *Dywed llawer fod creu ysgol ffederal yn arwain at gau yr ysgol honno ymhen amser. Beth fydd ar ôl yng Ngwynedd wedyn fydd ysgolion mawr trefol ac ysgolion ardal. Trueni mawr fydd hyn.*

Manteision ysgolion ffederal

Dim ond ychydig o fanteision a nodwyd o ran y drefn hon. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cadw presenoldeb ysgol mewn pentref/ardal.
- Manteisio ar arbenigeddau cronfa ehangach o athrawon.
- Lleihau baich athrawon o ran cydlynu/arwain pwnc.
- Cyfleoedd i blant gymysgu gyda plant o safleoedd ysgol eraill.

Hyd yn oed pan oedd cytundeb bod angen archwilio'r model hwn caed ambell amheuaeth fel:

> *Barn y Corff Llywodraethu oedd bod y gwahanol fodelau a roddir gerbron yn cynnig posibiliadau gwerthfawr, er nad oedd yn glir pam nad oedd clystyru bellach yn opsiwn. Roedd y Corff o'r farn mai mater i ysgolion ac ardaloedd eraill yw ystyried a phenderfynu pa fodelau fyddai fwyaf addas yn eu hachos hwy, o fewn y fframwaith o amcanion cyffredinol a nodir yn y cynllun. Bydd manteision ac anfanteision y modelau yn wahanol o ardal i ardal a theimlid mai ofer fyddai i ni geisio llunio rhestr gynhwysfawr a fyddai'n gymwys ym mhob amgylchiad.*

Nododd un corff llywodraethol:

> *Yn yr ymgynghoriad gwreiddiol, cynigiwyd clystyru ysgolion ond eto nid oes yr un trefniant clystyru yn cael ei gynnig .. a gwelir clystyru fel y dewis delfrydol gan y rhan fwyaf o ysgolion.*

Tra bod un unigolyn yn mynnu:

> *Its not as easy as it sounds and involves a lot of careful planning and flexibility to make it work*

Un thema gyson a godai yn y rhan hon o'r ymgynghoriad oedd pam nad oedd y cynllun drafft wedi cynnwys cynigion am glystyru ysgolion.

4.2 Ysgolion ardal

Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ar y cynigion ar gyfer ysgolion ardal. Y prif resymau a roddwyd yn erbyn ysgolion ardal oedd:

- Cau ysgolion bach gwledig er mwyn creu Ysgolion Ardal;
- Trafnidiaeth - plant ifanc yn cael eu cludo ar hyd lonydd cefn gwlad.
- Costau teithio i'r plant - hyd at £1000 y pen/ flwyddyn am daith o 5 milltir.
- Plant yn cael eu tynnu allan o'u cymunedau - dim teimlad o berthyn.
- Llai o berchnogaeth / cefnogaeth gan y rhieni a'r cymunedau sydd wedi eu amddifadu o'u hysgolion
- Dosbarthiadau mwy
- Anawsterau cymathu disgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg

Y manteision a nodwyd:

- Pennaeth sefydlog;
- Mwy o adnoddau – clybiau gwarchod;
- Bod yr addysg yn gallu bod yn well mewn ysgol fwy – gan fod mwy o gyfleon i ddisgyblion wrth ymwneud â'i gilydd;
- Byddai rhai ardaloedd penodol yn manteisio;
- Os mai dewis yr ardal arbennig unigol oedd honno a bod cydweithrediad ac ewyllys lleol yn helpu i greu'r ysgol ardal;

Nododd un rhiant:

> *Yr ysgol ardal orau yw'r ysgol sy'n dal yn rhan o gymdogaeth. Collir y fantais hon os nad yw ysgol yn rhan o gymdogaeth ac yn lle hynny*

yn gangen o ysgol fawr ffederal ganolog na fydd yn perthyn i un gymdogaeth yn arbennig.

Ac meddai unigolyn a ddisgrifiodd ei hun fel *'un sy'n poeni am y gwasgu parhaol ar gefn gwlad yn enwedig cefn gwlad y Gymru Gymraeg'*:

Mater dadleuol yw honni bod creu ysgolion ardal yn mynd i arbed arian yn y pendraw. Beth fydd gwir gostau cyfalaf codi adeiladau newydd? Sut y gellir rhagweld gwir gost cludo plant i'r ysgolion newydd dros y tymor hir?

Tra bod rhiant arall yn holi pam nad oedd arbedion o ran ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu cynnig:

Why have no ideas for upgrading current buildings even been costed? What about fitting schools with latest tech, as in Germany, with wind/solar power, energy efficiency, making our schools low/zero carbon, thus protecting heritage AND saving money.

At ei gilydd, beth bynnag, amheus iawn oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr am gynigion ysgolion ardal.

4.3 Cau ysgolion

Erbyn cyrraedd y rhan hon o'r holiadur, roedd y rhan fwyaf a wrthwynebai'r cynigion wedi cyflwyno eu dadleuon ac yn tueddu i gynnig pwyntiau bachog o ran eu gwrthwynebiad i gau ysgolion. Dyma'r prif bwyntiau a nodwyd:

- Yn amlwg - cymuned yn colli adnodd pwysig.
- Pentref yn llai atyniadol i deuluoedd ifanc gan nad oes ysgol ar gael.
- Plant yn gorfod teithio i'r ysgol agosaf - lonydd cefn gwlad yn beryglus.
- Costau teithio unwaith eto.
- Staff dysgu yn cael eu hadleoli neu golli swyddi.
- Staff ategol e.e. gofalwyr, cymorthyddion a staff y gegin yn colli swyddi. Cyfrannu at ddiweithdra.
- Ymuno hefo dosbarthiadau mwy a chymhareb athro:disgybl yn mynd yn uwch.
- Dim yr un ymdeimlad o berthyn gan blant i'r ysgol newydd.
- Effaith ar yr iaith Gymraeg;
- Effaith ar yr amgylchedd oherwydd mwy o deithio;
- Anghyfleustra ac mewn rhai achosion anawsterau cludo mawr i rieni fydd yn eu gorfodi i newid trefn eu dydd;

Serch hynny, atgoffodd lleiafrif o ymatebwyr fod cau ysgolion yn anochel - *'Bydd yn rhaid wynebu penderfyniad i gau rhai ysgolion'* (Corff llywodraethol).

4.4 Adeiladu ysgolion newydd

Gwelwyd manteision amlwg wrth adeiladu ysgolion newydd eto caed teimladau cryf nad oedd addysg dda yn dibynnu ar adeiladau da. *'Nid yw adeiladau newydd yn gwarantu addysg dda'* oedd un sylw cyson a ymddangosai mewn ymatebion. Dyfynnodd un pennaeth o wybodaeth a ddarparwyd gan NASS a fynnodd:

> *'Nid oes tystiolaeth i ddangos bod adeilad da byth yn gwella canlyniadau plant'*

Nododd un rhiant, serch hynny:

> *'All of these options are simply part of a big 'mix and match' policy which has been framed as a) fait accompli and b) as being the only viable option.*

Holodd un pennaeth o ble deuai'r cyllid i adeiladu ysgolion newydd a chwestiynodd a fyddai'n well defnyddio'r arian hwnnw ar gyfer gwella ysgolion presennol. Ofnai rhai bod y sôn am adeiladau newydd ond yn abwyd i ddenu cefnogaeth i gynllun y sir – addewid na fyddai'n cael ei wireddu yn y pendraw.

5. Opsiynau eraill/Cynllun Arfaethedig Gwynedd

Y farn gyffredinol yw y dylai'r sir fod yn ystyried cynllun llai uchelgeisiol a fyddai'n ceisio mynd i'r afael â phatrymau ardaloedd unigol drwy gydweithio â'r rhan ddeiliaid er mwyn pennu camau datblygol priodol yn ôl yr angen. Felly nodwyd y pwyntiau penodol canlynol:

- Pam cael cynllun sir gyfan lle gellid bod wedi edrych ar sefyllfa pob dalgylch yn unigol ac fel bo'r angen yn codi?
- Beth am edrych ar ddalgylchoedd sydd yn awyddus i ffederaleiddio a threialu a gwneud yn siŵr ei fod yn gweithio cyn arbrofi hefo holl blant y Sir?
- Pam ddim edrych ar fodelau amgenach o Ffederaleiddio? Mae sawl model posibl wedi eu treialu a phrofi llwyddiant mewn siroedd eraill - a rhain yn fodelau sydd wedi eu cynnig gan y cymunedau.
- Beth am i'r Swyddogion fynd at y cymunedau a thrafod gyda hwy am y math o fodel y credent fyddai'n gweddu - dwi ddim yn teimlo fod digon o sylw wedi ei gymryd o'r trafodaethau cyntaf. Pam fod cymaint o frys?

- Does dim wedi ei wneud ers dros 30 mlynedd - pam fod angen gwneud yr holl newidiadau mewn 5? Mae gen i ofn fod y cynllun yma'n cael ei wthio trwodd heb amserlen addas na'r capasiti gan y Sir i'w gefnogi.
- A oes posib edrych ar y syniad o Swyddog Gweinyddol - yn hytrach na phennaeth ffederal ac yna gadael i'r penaethiaid ysgolion arwain eu safleoedd a cael gwared o rhywfaint o'r byrdwn biwrocratiaeth. Mae'n rhaid fod y Sir yn sylweddoli fod oriau o waith penaethiaid yn cael eu dyblygu!
- Llunio gweithgor o benaethiaid sydd dan fygythiad o gau/ffederaleiddio er mwyn trafod opsiynau sydd yn gweddu'r mwyafrif gyda'r lleiaf o effaith negyddol ar y cymunedau.
  Opsiwn tymor hir yw buddsoddi mwy yn ein cymunedau, adeiladu mwy o dai fforddiadwy, creu gwaith i gadw'n pobl ifanc yn eu cymunedau a llenwi ein hysgolion.

Mae'r dyfyniadau canlynol yn crynhoi sylwadau ymatebwyr am y ffaith bod y cynigion yn rhy uchelgeisiol ac yn cynnig fframwaith ar gyfer y sir i gyd yn lle hybu modelau lleol ar sail awydd sefyllfaoedd unigol i newid:

> *Mae'r Cynllun yn llawer mwy pell gyr haeddol na ddychmygodd unrhyw ddalgylch erioed ac yn mynd yn gwbl groes i unrhyw drafodaethau y cafwyd yn y blynyddoedd cynnar (Cyngor Cymuned)*
>
> *The entire document is highly misleading and presents little space for proper grass roots consultation. 4.1 to 4.5 are simply different aspects of the same overall scheme. There is little space to present alternatives (rhiant)*
>
> *Mae'n iach ystyried opsiynau eraill – mwy o gydweithio rhwng ysgolion ond mae'n bwysig trafod gyda'r gymuned. (Cyngor Tref)*
>
> *Teimlir bod opsiynau yn addas i'r dyfodol – y sialens yw perswadio cymunedau nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy – efallai y dylid symud i newid yn yr ardaloedd lle mae'r gwir awydd i wneud hynny.(Corff Llywodraethol)*

6. Casgliadau

Mae'r ymgynghoriad wedi llwyddo ennyn ymateb gan nifer sylweddol o unigolion a chyrff. Serch hynny, deil y mwyafrif i fod yn amheus o werth y broses. Yn ogystal â hynny, mae carfannau pwysig yn anghytuno gyda'r cyngor nad yw'r sefyllfa bresennol o ran darpariaeth ysgolion cynradd yn gynaliadwy. Mae hyn yn arbennig o wir am rieni – yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd lle cynigir cau'r ysgol leol. Gwrthodant resymeg y Cyngor ar sail fod eu tystiolaeth anghywir o ran niferoedd o ddisgyblion sy'n debyg

o gyrraedd yr ysgolion hyn. Maent hefyd yn amheus iawn o'r sail addysgol a'r sail gyllidol y tu ôl i resymeg y Cyngor.

Mae grwpiau eraill megis cyrff llywodraethol, penaethiaid unigol a chynghorau cymuned neu dref yn fwy tebygol o gytuno â dadleuon y Cyngor. Serch hynny, hyd yn oed yn yr achosion hyn lle cydnebydd yr ymatebwyr yr angen am newid, nid ydynt yn argyhoeddedig bod yr opsiynau cywir yn cael eu cynnig. Ceir gwrthwynebiad cadarn i'r syniad o ysgolion ffederal a nid yw'r cynnig am ysgolion ardal yn cael llawer gwell derbyniad. Mae'r syniad o glystyru ysgolion yn cael ei godi'n gyson mewn ymatebion – ac mae'r ymatebwyr hyn yn gresynu nad yw'r model hwn wedi'i grybwyll yn y cynllun drafft.

Byrdwn amlwg llawer o'r ymatebwyr yw bod cael un cynllun mawr holl gynhwysfawr yn anaddas. Honnant y dylai'r cyngor fod yn ystyried datblygu modelau lleol gwahanol sy'n fwy unol â dyheadau cymunedau arbennig. Dylai'r modelau hyn dynnu ar ewyllys da er mwyn creu patrymau mwy derbyniol drwy gydnabod cryfderau darpariaeth addysg gynradd leol. Yn amlwg, byddai rhai cyrff llywodraethol a chynghorau cymuned sy'n derbyn yr achos dros newid yn fannau y mae potensial i archwilio modelau lleol gwahanol.